

Biosffer Dyfi Biosphere



Biosffer Dyfi Biosphere

Mae Biosffer Dyfi yn gorchuddio holl ddalgylch afon Dyfi ac yn ymestyn ar hyd arfordir Bae Ceredigion cyn belled â Thywyn yn y gogledd ac Aberystwyth yn y de. Mae'n ardal wledig yn bennaf lle mae ffermio, pysgota a thwristiaeth yn bwysig, tra bod y gwarchodfeydd natur o amgylch aber Afon Dyfi o arwyddocâd cenedlaethol. Mae ganddi ddiwylliant dwyieithog cyfoethog, o chwedlau Cymreig i ynni adnewyddadwy a ffermio organig.

Beth sy'n gwneud y Dynodiad UNESCO hwn yn arbennig?

Ar ochr ddeheuol aber Afon Dyfi, mae twyni Ynyslas yn gartref i boblogaeth gyfoethog o degeirianau, mwsoglau, llysiâu'r afu, ffyngau, pryfed a phryfed cop, tra bod Cors Fochno yn un o'r cyforgorsydd mawn gorau ym Mhrydain.

Mae'r aber hefyd yn rhan o Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau, gan gynnal ystod eang o gynefinoedd morol a bywyd gwylt. Yn fewndirol, mae Coed Cwm Einion yn goetir llydanddail cymysg lled-naturiol hynafol. Yr ardaloedd hyn yw craidd y Biosffer.

Yn y cyfamser, ymhellach i fyny Afon Dyfi, tref farchnad Machynlleth yw lle sefydlodd Owain Glyndwr y senedd Gymreig gyntaf ym 1404. Mae Canolfan y Dechnoleg Amgen yn fyd-enwog am ei datblygiadau arloesol ym maes ynni adnewyddadwy ac mae wedi ysgogi prosiectau diddorol yn y gymuned ehangach. I lawr yr arfordir, mae Aberystwyth yn gartref i brifysgol fawreddog a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a dyma dref fwyaf y Biosffer.

Mae ffermio, pysgota a bywyd yn bwysig ac mae yna lawer o fusnesau bach sy'n darparu ar gyfer y galw am fwydydd lleol, ar gyfer ymwelwyr a phobl sy'n byw yn yr ardal.



Biosphere Reserves

Biosffer Dyfi Biosphere

Siroedd: **Ceredigion, Powys and Gwynedd**

